YMATEB I ADRODDIAD PWYLLGOR ARCHWILIO CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU AR ARIAN AR GYFER CANOLFAN MILENIWM CYMRU: ADRODDIAD Y PWYLLGOR AC(3) 13- 08 – RHAGFYR 2008

Rydym yn croesawu'r casgliadau ac yn cynnig yr ymatebion canlynol i'r 4 argymhelliad yn yr adroddiad.

(i) Rydym yn cymeradwyo argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, ac rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad a'r Cyngor Celfyddydau ddatgan sut y maent yn bwriadu ymateb i'r argymhellion hyn yn eu hymateb i'r adroddiad hwn.

Ymatebion i argymhellion adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol

Argymhelliad 1
Yn ystod camau cynnar y prosiect, nid oedd gan yr arianwyr farn gyffredin p'un ai amser, cost neu ansawdd oedd eu blaenoriaeth ar gyfer y gwaith adeiladu ac o ganlyniad dewiswyd dulliau caffael gwahanol. Dylai arianwyr cyhoeddus prosiectau adeiladu mawr gytuno ar y flaenoriaeth gyffredinol ar gyfer y sector cyhoeddus a'r dull caffael mwyaf priodol i gyflawni'r flaenoriaeth honno.

Derbyniwyd yr argymhelliad.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Mae Gwerth Cymru yn paratoi strategaeth gaffael ddrafft ar gyfer prosiectau adeiladu erbyn diwedd mis Ionawr 2009. Bydd y cynllun gweithredu i roi'r strategaeth ar waith yn cynnwys datblygu arweiniad ar arfer caffael da. Bydd hyn yn helpu sefydliadau i ddewis y dull caffael mwyaf priodol i helpu i gyflawni blaenoriaethau'r prosiectau. Mae Gwerth Cymru eisoes wedi llunio arweiniad ar gymhwyso Rheoliadau Caffael yr UE, ac yn 2008 sefydlwyd gwasanaeth cynghori ar gaffael ganddynt ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Argymhelliad 2
Ar ôl ymyriad Llywodraeth y Cynulliad ym mis Ebrill 2001, mabwysiadodd y Ganolfan gontract dylunio ac adeiladu pris sefydlog, yn unol ag arfer da a dderbyniwyd lle mae sicrhau sicrwydd cost a throsglwyddo risg yn flaenoriaeth. Dylai arianwyr ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr am arian cyfalaf ar gyfer prosiectau adeiladu ddangos cydymffurfiaeth ag arfer da, gan gynnwys arfer da o ran adeiladu a nodwyd gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

Derbyniwyd yr argymhelliad.

Bydd y cynllun gweithredu a gaiff ei lunio fel rhan o'r strategaeth gaffael ar gyfer prosiectau adeiladu yn cynnwys datblygu safonau gofynnol cyffredin ar gyfer caffael adeiladu, yn unol â'r arfer da a argymhellir gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth. Bydd Gwerth Cymru yn hyrwyddo'r arfer da ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, a bydd amodau'r grant yn cael eu hadolygu

er mwyn cynnwys amodau i gydymffurfio â'r safonau hyn lle y mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu'r arian.

Argymhelliad 3
Roedd y defnydd o'r monitor ar y cyd yn ystod y cam cyfalaf yn arfer da, a galluogodd yr arianwyr i fabwysiadu dull cydgysylltiedig o ran mynd i'r afael â risgiau. Yn y dyfodol, dylai arianwyr ddefnyddio monitro ar y cyd ar gyfer pob prosiect cyfalaf mawr lle ceir arianwyr lluosog.

Derbyniwyd yr argymhelliad.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu'r arweiniad a gynhwysir yn Llyfr Gwyrdd y Trysorlys, "Appraisal and Evaluation in Central Government" (y Llyfr Gwyrdd). Mae'r arweiniad hwnnw'n datgan y dylid cyflawni gwerthusiadau ac arfarniadau ar y cyd lle ceir arianwyr lluosog pan fo hynny'n bosibl a bod angen diffinio cyfrifoldebau arwain yn glir. Mae sylw awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru eisoes wedi'i dynnu at argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol mewn arweiniad ar y maes hwn a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar 25 Tachwedd 2008. O ran prosiectau celfyddydau, mae Cyngor Celfyddydau Cymru eisoes yn gofyn i'r partneriaid mewn prosiectau celfyddydau a ariennir ar y cyd gydgysylltu eu prosesau gwerthuso a monitro.

Argymhelliad 4
Ychydig cyn i'r prosiect gael ei gymeradwyo'n derfynol, adolygodd y Ganolfan ei huchelgeisiau busnes yn sylfaenol, o fod yn theatr ranbarthol i fod yn lleoliad celfyddydol rhyngwladol. Er y bu cynlluniau blaenorol yn destun craffu manwl, ni chafodd y cynllun diwygiedig hwn ei archwilio'n fanwl gan swyddogion nag arbenigwyr annibynnol. Cyn cytuno ar ariannu, dylai arianwyr asesu effaith newidiadau sylweddol i gynlluniau busnes.

Derbyniwyd yr argymhelliad.

Diben proses rheoli risg Llywodraeth Cynulliad Cymru yw nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n codi wrth fynd ati i ariannu prosiectau cyfalaf mawr, ac mae'n cynnwys y ffaith bod rhai pethau'n cael eu cymryd yn ganiataol wrth wneud cynlluniau busnes ac unrhyw newidiadau dilynol. Mae cadw llygad ar hyn yn gryn her. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu adolygu'r hyfforddiant y mae'n ei ddarparu yn y maes hwn er mwyn adlewyrchu cynnwys yr argymhelliad hwn erbyn mis Mehefin 2009.

Argymhelliad 5
Mae'r pontio o'r cam adeiladu i'r cam gweithredol yn gynhenid gymhleth ac iddo risg uchel, am ei fod yn cynnwys newid sylweddol mewn ffocws. Pan agorodd y Ganolfan, roedd ganddi fenthyciad banc mawr wedi'i warantu gan Lywodraeth y Cynulliad. Nid oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi archwilio effaith cario'r benthyciad drosodd ar ddichonoldeb gweithredol y Ganolfan, ac ni ddatblygodd gynllun i fynd i'r afael â'r

risgiau oedd yn weddill. Wrth i brosiectau cyfalaf mawr symud o adeiladu i'r cam gweithredol, dylai arianwyr nodi:

- **Risgiau gweddilliol;**
- **Sut y gallai risgiau o'r fath effeithio ar y cam gweithredol;**
- **Pa gynlluniau sydd ar waith i reoli'r risgiau hynny.**

Derbyniwyd yr argymhelliad.

Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yw dilyn yr arweiniad yn y Llyfr Gwyrdd a *Management of Risk* gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth. Mae'r arweiniad hwn yn cydnabod bod rheoli risg yn arbennig o bwysig pan fo prosiect yn symud o'r cam adeiladu i'r cam gweithredol. Bydd yr angen i reoli risg o ddechrau prosiect i'r diwedd yn cael ei bwysleisio yn yr hyfforddiant diwygiedig ar reoli risg y disgwylir iddo gael ei gyflwyno yn nes ymlaen eleni.

Argymhelliad 6
Nid oedd gan Lywodraeth y Cynulliad gytundeb ariannu refeniw gyda'r Ganolfan tan bron i ddwy flynedd ar ôl iddi agor. Golygai'r oedi hwn nad oedd gofyniad cyfrwymol ar y Ganolfan i ddarparu'r wybodaeth yr oedd ei hangen ar Lywodraeth y Cynulliad i fonitro'r risgiau allweddol. Dylai arianwyr refeniw sicrhau bod darparu gwybodaeth addas am berfformiad yn un o amodau eu cytundebau ariannu. Dylai lefel ac amledd y wybodaeth sydd ei hangen fod yn gymesur â risg, ond mae'n debygol o gynnwys:

- **Cyfrifon rheoli misol;**
- **Rhagolygon llif arian;**
- **Dangosyddion perfformiad busnes allweddol.**

Derbyniwyd yr argymhelliad.

Mae'r cytundeb ariannu refeniw newydd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Ganolfan y cytunwyd arno ym mis Gorffennaf 2008 yn gofyn i'r Ganolfan roi cyfrifon rheoli misol, gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad allweddol a rhagolygon llif arian i Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei monitro'n rheolaidd.

Bydd yr angen i olrhain gwybodaeth ariannol a'r wybodaeth am berfformiad yn cael ei bwysleisio yn yr arweiniad a'r hyfforddiant diwygiedig ar reoli grantiau ar gyfer holl aelodau staff LICC, y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno yn nes ymlaen eleni.

Argymhelliad 7
Oherwydd pryderon am wybodaeth fasnachol sensitif yn cael ei rhyddhau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, penderfynodd yr arianwyr beidio â chadw gwybodaeth fanwl am berfformiad ariannol a busnes y Ganolfan. Mae hwn yn gamddehongliad sylfaenol o'r ffordd y dylid cymhwyso'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae'r arianwyr bellach wedi newid y penderfyniad hwn. Dylai Llywodraeth y Cynulliad gyhoeddi canllawiau i bob corff cyhoeddus yng Nghymru, gan nodi:

- eu cyfrifoldeb i gadw cofnodion priodol;
- na ddylid dehongli'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fel cyfiawnhad dros beidio â chadw gwybodaeth a chofnodion pwysig.

Derbyniwyd yr argymhelliad.

Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Parhaol at holl Benaethiaid Adran Llywodraeth Cynulliad Cymru ac at bob corff cyhoeddus yng Nghymru ar 25 Tachwedd 2008 gan dynnu eu sylw at argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â rheoli cofnodion. Mae sylw holl aelodau'r staff yn cael ei dynnu at yr arweiniad cynhwysfawr ar faterion rheoli cofnodion ar fewnrwyd Llywodraeth y Cynulliad.

Argymhelliad 8
Pan gytunodd Llywodraeth y Cynulliad i ymestyn ei gwarant benthyciad yn 2005 a 2006, nid oedd ganddi ddealltwriaeth ddigon manwl o fusnes y Ganolfan. Byddai dadansoddiad manwl wedi dangos mai prin oedd y cyfle iddi dalu'r benthyciad, a bod y taliadau llog parhaus wedi tanseilio dichonoldeb ariannol y Ganolfan ymhellach. Hefyd, pan gytunodd Llywodraeth y Cynulliad i dalu'r benthyciad a chynyddu arian refeniw'r Ganolfan, gwnaeth hynny ar ôl dadansoddiad manwl o gynlluniau busnes a rhagolygon y Ganolfan ond nid archwiliodd swyddogion y cyfrifon archwiliedig ar gyfer 2006, a fyddai wedi rhoi tystiolaeth gadarnach, wedi'i dilysu'n allanol ar berfformiad ariannol diweddar. Dylai arianwyr refeniw cyhoeddus sicrhau bod eu proses o wneud penderfyniadau ariannol yn seiliedig ar wybodaeth gynhwysfawr sydd mor gadarn a diweddar ag sy'n ymarferol bosibl. Dylai lefel manylder y wybodaeth fod yn gymesur, ond mae'n debygol o gynnwys cyfuniad o:

- **gyfrifon archwiliedig;**
- **rhagolygon llif arian;**
- **cyfrifon rheoli;**
- **rhagolygon y cynllun busnes.**

Derbyniwyd yr argymhelliad.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymrwymedig i gynnal arfarniad cynhwysfawr o sefyllfa ariannol y sefydliadau sy'n cyflwyno ceisiadau am arian. Bydd manylder unrhyw arfarniad yn dibynnu ar lefel y risg sy'n gysylltiedig â swm yr arian a maint a math y sefydliad dan sylw. Mae arweiniad diwygiedig yn cael ei baratoi ar y materion hyn, a chaiff ei roi i holl aelodau staff LICC erbyn mis Mehefin 2009. Yn ddiweddar, mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi adolygu ei drefniadau monitro prosiectau refeniw ac, yn sgil argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, mae trefniadau gwell newydd wedi'u cyflwyno i'w defnyddio o fis Ionawr 2009 ymlaen.

Rhoi gwybodaeth lawn i Aelodau'r Cynulliad

(ii) Yn y dyfodol, pan ofynnir i Aelodau'r Cynulliad bleidleisio ar arian ar gyfer prosiectau mawr, dylid rhoi asesiad llawn iddynt o'r arian a'r risgiau ariannol.

Derbyniwyd yr argymhelliad.

Nod Llywodraeth y Cynulliad yw darparu gwybodaeth gefndirol sydd mor gynhwysfawr â phosibl am brosiectau buddsoddi mawr. Bydd y Gweinidogion yn parhau i benderfynu ar y wybodaeth benodol a ddylai fod ar gael yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos penodol. Pryd bynnag y gofynnir i Aelodau'r Cynulliad bleidleisio ar ariannu prosiectau, rhoddir asesiadau clir iddynt o'r arian a'r risgiau ariannol er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys.

Swyddogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru o ran Canolfan Mileniwm Cymru

(iii) Dylai Llywodraeth y Cynulliad ailystyried a ddylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ariannu'r Ganolfan, ac felly am ei monitro, i'r Cyngor Celfyddydau.

Derbyniwyd yr argymhelliad.

Bydd y Gweinidogion yn ystyried a ddylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ariannu a monitro'r Ganolfan i Gyngor Celfyddydau Cymru, ac os felly, pryd y byddai'n briodol i unrhyw gyfrifoldebau gael eu trosglwyddo. Mae'r Gweinidogion eisoes wedi cytuno y dylai fod gan y Cyngor ran ganolog yn y gwaith o fonitro effaith ddiwylliannol y Ganolfan fel rhan o'r trefniadau ariannu diwygiedig.

Swyddogaeth Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cynulliad Cymru

(iv) Dylai Llywodraeth y Cynulliad gomisiynu ei Gwasanaeth Archwilio Mewnol i roi adroddiad ar ansawdd y trefniadau monitro hynny sydd wedi'u sefydlu a pha un a ydynt yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd.

Derbyniwyd yr argymhelliad.

Cyfrannodd Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cynulliad Cymru at y gwaith cychwynnol o ddatblygu fframwaith monitro ar gyfer y Ganolfan i'w gynnwys yn y cytundeb ariannu diwygiedig a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2008. Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad o'r trefniadau monitro newydd yn ystod blwyddyn ariannol 2009-10.